Fforwm Mynediad Lleol 01

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT

**25 Ebrill 2023**

**Parc Gwepra**

---

**Yn bresennol** –, Nia Thomas, Julian Pellatt, Neville Howell, Huw Morgan, Jeff Shone, Ian Gibbons, Shirley Fermer, Y Cynghorydd Dave Evans, Sarah Hampson, Marjorie Thompson, Huw Reece, Alan Neale, John Holiday.

**Swyddogion yn bresennol** - Tom Woodall, Derrick Charlton, Stuart Jones, Natalie Davies, Adrian Owen Hibbert, Suzanne Williams

**Ymddiheuriadau** – Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru), Jonny Hulson

**1/ Croeso –**

Cyflwynodd TW ei hun a'i rôl fel Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol a Chadeirydd dros dro, a chroesawodd bawb i'r cyfarfod.

**2/ Cyflwyniadau –**

Cyflwynodd pob aelod ei hun a rhoi trosolwg byr o'u cefndir a'u cysylltiad â'r fforwm.

**3/ Cyflwyno'r Cefndir –**

Cyflwynodd TW raglen y cyfarfod a rhoddodd gefndir a chyd-destun dros sefydlu Fforwm Mynediad Lleol newydd Sir y Fflint.

Fe eglurodd y byddai'r Tîm Mynediad yn cefnogi i redeg a gweinyddu'r Fforwm. Cynigiodd TW fod y Fforwm yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn ond mae yna gyfleoedd i is-grwpiau gyfarfod yn fwy aml. Fe awgrymodd TW hefyd fod y Fforwm yn cyfarfod mewn lleoliadau gwahanol yn y Sir a chynnig cyfleoedd i weld prosiectau a materion allan mewn safleoedd. Cytunodd yr aelodau.

**4/ Cyflwyniad Sefydlu, Rhan 1 -**

Rhoddodd TW gyflwyniad am y ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r Fforwm a'i fusnes. Fe gyflwynodd Gylch Gorchwyl Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint a rhoddodd grynodeb o ddarpariaeth mynediad o fewn Sir y Fflint.

**Cam Gweithredu -** Rhoddwyd copi o gylch gorchwyl i'r Aelodau eu hystyried a gofynnwyd iddynt anfon unrhyw sylwadau sydd ganddynt er mwyn cael eu derbyn yn y cyfarfod nesaf.

**5/ Cyflwyniad Sefydlu, Rhan 2 -**

Rhoddodd y Tîm Mynediad gyflwyniad yn manylu ar Dîm Mynediad Sir y Fflint a'i adnoddau, y Map Diffiniol, system Rheoli Mynediad Cefn Gwlad, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, rhaglen ddarparu flynyddol a Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru. Rhoddodd AH drosolwg o'r gwaith i wella'r rhwydwaith.

**Cam Gweithredu -** Mae'r tîm Mynediad yn gallu anfon dolen i aelodau ar gyfer Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a pholisïau a gweithdrefnau.

**Cam Gweithredu –** Tîm Mynediad i ymgynghori gyda'r Fforwm am Gydgrynhoi'r map.

**6/ Eitemau posibl ar y rhaglen yn y dyfodol i'r Fforwm Mynediad Lleol eu hystyried**

Trafododd yr Aelodau pynciau posibl i'r Fforwm eu hystyried:

Parc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru
Ymddygiad yng nghefn gwlad
Trosolwg o waith gwella Archwilwyr Llwybrau Troed
Cynllunio - datblygiadau ar raddfa fawr
Teithio Llesol
Uno cymunedau - Cynlluniau Creu Lleoedd
Mynediad anabl i gefn gwlad
Astudiaeth gwmpasu parc arfordir Sir y Fflint
Hen reilffyrdd
Cysylltiadau gyda gorllewin Sir Gaer a Sir Ddinbych.
Diweddariad sefydliad am waith i ddatrys problemau ar y rhwydwaith
Mynediad i ddŵr

Bydd y rhain yn cael eu trafod gyda Chadeirydd Fforwm Mynediad Lleol ar ôl iddynt gael eu hethol a byddant yn ffurfio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

**7/ Ystyried rôl Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol**

Fe eglurodd TW fod angen i'r Fforwm ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd, a dyma fyddai'r eitem gyntaf o fusnes yn y cyfarfod nesaf.

Rhoddodd TW grynodeb byr o rôl a disgwyliadau y swyddi yma a gofynnodd i Aelodau ystyried gwirfoddoli ac i gysylltu ag o i drafod y mater ymhellach.

**8/ Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Cam Gweithredu -** Gofynnodd yr aelodau bod eu manylion yn cael eu rhannu gyda'i gilydd.

Gofynnwyd am hyfforddiant/arddangosiad o system Rheoli Mynediad Cefn Gwlad i aelodau.

**Cam Gweithredu –** SJ i drefnu sesiwn cyn y cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau am fap o'r holl ardaloedd gwahanol y mae'r tîm yn gyfrifol amdanynt.

**Cam Gweithredu –** ND i anfon map i'r aelodau.

Nid oedd unrhyw faterion eraill a daeth y cyfarfod i ben am 1.30pm.

Fe gerddodd yr aelodau o amgylch Parc Gwepra.

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar - 11 Gorffennaf 2023.
17 Hydref 2023.
6 Chwefror 2024.